Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Gyflawni'r Bont
# Stephenson Street
# Casnewydd
# NP19 0RB

## Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chanolfan Gyflawni'r Bont

Uned cyfeirio disgyblion (UCD) portffolio yw Canolfan Gyflawni'r Bont ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2014 ar ôl ailstrwythuro UCD Cylchdroi. Mae'r UCD yn gwasanaethu disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Mae'r UCD yn gweithredu pedwar safle gwahanol ledled Casnewydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfnod allweddol 3 a chanolfan Blwyddyn 10 yn Stephenson Street, darpariaeth cyfnod allweddol 4 ym Mhilgwenlli a chanolfan cyfnod allweddol 2 yng Nghanolfan Y Gôl, Llysweri, yn ogystal â darpariaeth grŵp anogaeth ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd yn Nhŷ-du. Mae'r UCD hefyd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd angen gwersi gartref oherwydd eu hanghenion meddygol ac yn rheoli'r lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn y coleg lleol ac mewn darparwyr addysg eraill.

Mae'r Ganolfan wedi cynyddu o ran capasiti dros 20% yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ac mae 100 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. O'r rhain, mae 54% yn gymwys am brydau ysgol am ddim ac mae'r gyfran hon ymhell uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol. Daw mwyafrif y disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith ac mae 11% o'r dysgwyr yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol. Nodwyd bod gan bob un o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan 30% ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

## Crynodeb

Mae gan ddisgyblion ar y gofrestr yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont ystod eang o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac fe gaiff llawer ohonynt anhawster yn rheoli eu hymddygiad mewn lleoliad prif ffrwd. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth ar draws pob darpariaeth yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'u disgyblion, ac ar y cyfan, mae disgyblion yn ymateb yn dda i staff ac yn sefydlu ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth.

O ganlyniad i gyfleoedd cyfyngedig, nid yw disgyblion ar draws y ganolfan yn gwneud digon o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd yn ystod eu cyfnod yn yr UCD a gwnânt gynnydd cyfyngedig mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), y Gymraeg ac yn eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu ehangach.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws y ganolfan yn rhy amrywiol. Nid yw arweinwyr ac athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i alluogi eu disgyblion i wneud cynnydd yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Yn ddiweddar, datblygodd yr UCD system olrhain addas ar y cyfan i fonitro cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, yn ei fformat presennol, nid yw'n cynorthwyo arweinwyr ac athrawon i nodi gwendidau yn ddigon cywir er mwyn mynd i'r afael â thangyflawni ymhlith disgyblion. Nid yw gweithdrefnau diogelu yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

Nid oes gweledigaeth strategol ymhlith arweinwyr a rhanddeiliaid. Nid yw gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella yn ddigon trylwyr i alluogi'r UCD i wella. Mae addasrwydd ac ansawdd yr adnoddau dysgu ar draws yr UCD yn amrywio gormod.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |

## Argymhellion

A1 Gwella arweinyddiaeth i sicrhau bod gweledigaeth gref a strategol ar gyfer yr UCD

A2 Gwella gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio ar gynnydd disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni

A3 Mynd i'r afael â'r diffygion mewn gweithdrefnau diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad craidd

A4 Lleihau'r amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr UCD a chryfhau'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau

A5 Gwella'r cwricwlwm a'r cyfleoedd dysgu yng nghyfnod allweddol 4 i alluogi disgyblion i ddilyn eu llwybrau dysgu dymunol

A6 Gwella prydlondeb a phresenoldeb a chryfhau'r gweithdrefnau i fonitro presenoldeb ar draws yr UCD

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig o ran yr UCD hon. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Ar draws y ganolfan, mae mwyafrif y disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn, ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn briodol mewn lleoliadau newydd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n briodol ar eu hathrawon a'u staff cymorth. At ei gilydd, maent yn gwrando'n dda ar farn eu cyfoedion hefyd. Pan gânt eu holi, mae mwyafrif y disgyblion ar draws y ganolfan yn ymateb yn briodol mewn brawddegau byr, gan ddefnyddio geirfa addas sy'n benodol i bwnc. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion hŷn yn ymestyn eu syniadau'n ddigon da ac, yn aml, maent yn cynnig atebion ar lafar sy'n rhy fyr neu arwynebol. Mae rhai disgyblion hŷn yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn medrau siarad.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws y ganolfan yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau darllen. Mewn gwersi, mae'r disgyblion hyn yn casglu gwybodaeth o ffynonellau sylfaenol ond addas ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lunio casgliadau a llunio barnau. Er enghraifft, mewn Saesneg, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn brasddarllen a bwrw golwg drwy'r testun i nodi digwyddiadau allweddol yn llwyddiannus yn y nofel 'War Horse' gan Michael Morpurgo. Maent yn cymhwyso medrau darllen addas mewn pynciau eraill hefyd. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, darllenant am y prosesau sy'n gysylltiedig â chylch trin dŵr, maent yn dod o hyd i ffeithiau'n llwyddiannus ac yn llunio casgliadau syml. Mae disgyblion hŷn yn casglu'r prif bwyntiau o ystod eang o destunau perthnasol ac yn cyfosod y wybodaeth yn briodol i lunio'u barn. Pan roddir cyfle iddynt, bydd lleiafrif o ddisgyblion yn darllen darnau byr ar goedd yn glir a gydag ystyr.

At ei gilydd, mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws y ganolfan yn gwneud cynnydd cadarn mewn medrau ysgrifennu. Mae cyflwyniad a llawysgrifen llawer o ddisgyblion iau yn gwella dros gyfnod a datblygant falchder yn eu gwaith pan fyddant yn ysgrifennu'n annibynnol. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod gyfyng o genres, fel cofnodion dyddiadur ac adroddiadau papur newydd. Maent yn strwythuro eu brawddegau'n briodol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i drefnu eu gwaith mewn paragraffau. Nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws y ganolfan yn meddu ar amgyffrediad digon cryf o reolau sillafu, atalnodi a gramadeg sylfaenol, ac maent yn gwneud yr un camgymeriadau drosodd a throsodd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar lefel sylfaenol o gymhwysedd yn y pedair rheol rhif. Er enghraifft, defnyddiant eu gwybodaeth yn llwyddiannus i gyfrifo adiadau syml, amcangyfrif a thalgrynnu rhifau, a dangosant ddealltwriaeth gadarn o luosi sylfaenol i gyfrifo arwynebedd a chylchedd. Mae rhai disgyblion hŷn yn hyderus wrth ddadansoddi data sylfaenol ac maent yn llunio casgliadau rhesymol o wybodaeth mewn graffiau llinell, graffiau bar a siartiau cylch. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent mewn rhifedd yn ystod eu cyfnod yn y ganolfan. Y rheswm am hyn yw mai cyfleoedd cyfyngedig a gânt i ymarfer a chynyddu eu medrau. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn defnyddio eu

medrau'n ddigon aml mewn sefyllfaoedd bob dydd, go iawn, ac nid ydynt yn cymhwyso eu gwybodaeth yn ddigon da mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn TGCh yn ystod eu cyfnod yn y ganolfan.

Ar draws y ganolfan, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ran datblygu'r Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr pan fyddant yn ysgrifennu barddoniaeth ar bynciau sydd o ddiddordeb iddynt, fel ceir a phêl-droed. Maent hefyd yn datblygu medrau annibyniaeth gwerth chweil pan fyddant yn defnyddio cyfeirlyfrau i chwilio am, a dewis, geiriau perthnasol yn eu gwaith.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion hŷn yn datblygu medrau meddwl buddiol pan fyddant yn dylunio a chreu dodrefn mewn gwersi dylunio a thechnoleg. Er enghraifft, maent yn ystyried dyluniad, graddfa a deunyddiau yn bwrpasol wrth wneud byrddau coffi a hambyrddau pren. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfleoedd cyfyngedig ar draws y ganolfan, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn medrau meddwl a medrau datrys problemau.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr UCD â chyfartaleddau cenedlaethol nac i ddadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n mynychu'r ddarpariaeth tymor byr yn dychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth anogaeth yn gwneud cynnydd addas o ran ymgysylltu ag addysg. Fodd bynnag, mae tuedd o ostyngiad yn nifer a safonau'r cymwysterau a gyflawnir gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Er 2015, mae rhai dysgwyr yn ennill cymwysterau addas mewn Saesneg, mathemateg a phynciau galwedigaethol.

Nid yw nifer y disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi gostwng dros gyfnod, ac mae'n rhy uchel.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae mwyafrif y disgyblion yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont yn dangos agwedd gadarnhaol at addysg a dysgu ar y cyfan.

Mae bron pob un o'r disgyblion iau a'r rheiny yn y ddarpariaeth anogaeth yn ymateb yn dda i'r ymagwedd ofalgar a lefel uchel y cymorth a gânt. Dros gyfnod, mae hyn yn eu helpu i fagu hyder, gwella'u presenoldeb a datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i reoli eu hymddygiad.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol yn y ganolfan, a dangosant barch at ei gilydd. Mewn ychydig iawn o achosion, mae disgyblion yn dangos lefel dda o aeddfedrwydd ac maent yn ystyriol o anghenion pobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cynorthwyo disgyblion newydd yn sensitif pan fyddant yn ymuno â'r dosbarth.

At ei gilydd, mae agweddau disgyblion at ddysgu yn amrywio'n sylweddol ar draws y ganolfan. Er bod llawer o ddisgyblion iau yn mynychu'n dda, yn ymgysylltu'n adeiladol â'u hathrawon ac yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi, nid yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn gwneud hynny. Nid yw'r disgyblion hyn yn canolbwyntio'n ddigon da yn eu gwersi, maent yn colli diddordeb yn eu gwaith ac nid oes ganddynt ddigon o ddiddordeb mewn gwneud cynnydd.

Mae cyfraddau presenoldeb yn amrywio gormod ar draws y ddarpariaeth yn y ganolfan. Mae gormod o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn cyrraedd gwersi'n hwyr neu'n gadael gwersi'n gynnar. Mae ymddygiad gwael lleiafrif o ddisgyblion ar draws cyfnodau allweddol 3 a 4 yn destun pryder.

Ceir cyfleoedd cyfyngedig i'r rhan fwyaf o ddisgyblion gyfrannu mewn ffordd ystyrlon at fywyd y ganolfan, i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, a chymryd rhan yn y gymuned leol ac yn ehangach. O ganlyniad, nid yw disgyblion wedi datblygu'n ddigonol fel arweinwyr ac fel dinasyddion cyfrifol, gwybodus a gweithgar.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont yn ddigonol ac angen gwelliant.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gwerthfawr ac adeiladol gyda'u disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn eu cynorthwyo'n briodol â'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol amrywiol.

Mae llawer o athrawon yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn dangos iaith ac ymddygiad da i'w disgyblion. Yn y mwyafrif o achosion ar draws y ganolfan, mae staff yn dangos ymrwymiad cryf i reoli ymddygiad.

Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn cynllunio'n addas i ennyn diddordeb disgyblion a'u cynnwys mewn dysgu. Er enghraifft, mae athrawon yn gosod tasgau llythrennedd a rhifedd difyr ac ysgogol sy'n cynnig her addas i ddisgyblion sy'n amrywio o ran eu gallu a'u hangen. O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu a'u medrau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio tasgau a gweithgareddau yn ddigon gofalus er mwyn sicrhau ymgysylltiad a ffocws eu disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae tasgau'n anaddas ar gyfer ystod gallu ac oedran y disgyblion, ac nid ydynt yn darparu lefel gynyddol o her. Mewn lleiafrif o wersi, mae tasgau'n parhau am gyfnod rhy hir ac mae hyn yn arwain at ymgysylltiad a chynnydd gwael ymhlith disgyblion. Mewn rhai achosion, mae athrawon yn cyflwyno testunau sy'n amherthnasol neu'n anaddas ar gyfer y pwnc neu'n rhy gymhleth ar gyfer disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi addas ar lefel dosbarth cyfan. Mae lleiafrif o athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol i brocio ac asesu eu dealltwriaeth. Ar draws y ganolfan, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn ofalus ac yn rhoi adborth defnyddiol ar sut gall disgyblion wella eu gwaith.

Mae'r ganolfan yn darparu cwricwlwm perthnasol a phriodol ar gyfer mwyafrif y disgyblion. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 astudio ystod eang o bynciau, gan gynnwys gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, TGCh, celf a thechnoleg bwyd. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, gall disgyblion astudio ystod gyfyngedig o bynciau a chymwysterau, ac yn aml nid yw'r rhain yn bodloni eu dyheadau na'u hanghenion. Mae'r strwythur presennol yn y ganolfan yn golygu mai cyfyngedig yw'r dewis i ddisgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 10, ac o ganlyniad, ni all llawer ohonynt barhau â'r astudiaethau o'u dewis ym Mlwyddyn 11.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio rhaglenni dysgu hyblyg i fodloni anghenion newidiol y disgyblion. Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a darpariaethau anogaeth yn gwneud defnydd effeithiol o ofod y tu allan i ddarparu profiadau dysgu gwerth chweil ar gyfer y disgyblion.

Mae arweinwyr pwnc wedi gwneud defnydd effeithiol o hyfforddiant perthnasol i gynllunio ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn creu gweithgareddau addas ac yn gosod tasgau priodol i ddatblygu'r medrau hyn. Fodd bynnag, megis dechrau o hyd y mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ar draws yr UCD ac mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn ar safonau disgyblion.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ganolfan wedi nodi rhaglenni addas i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r rhaglenni ymyrraeth hyn, ac maent wedi cael effaith gyfyngedig ar safonau disgyblion.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'i diwylliant wedi'i datblygu'n ddigonol. Ar hyn o bryd, ni roddir cyfleoedd i ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg barhau â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg nac i'r disgyblion hyn ddilyn cymwysterau Cymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Er bod cynlluniau tra ystyriol i fynd i'r afael â hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio offer TGCh yn eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae'r ganolfan wedi sefydlu system addas i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm ar bob safle. Mae staff yn defnyddio'r system i gofnodi ystod ddefnyddiol o wybodaeth, gan gynnwys lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol, oedrannau darllen a sillafu disgyblion a'u cyfraddau presenoldeb unigol. Mae staff hefyd yn olrhain tueddiadau yn ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i osod targedau disgyblion unigol a thargedau gwella pwnc, nac i gynllunio ar gyfer darpariaeth addas i fynd i'r afael ag anghenion llythrennedd disgyblion.

Mae'r ganolfan yn darparu cynlluniau datblygu unigol (CDU) ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw'r wybodaeth y maent yn ei chynnwys yn ddigon manwl. Mae targedau yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn fesuradwy. O ganlyniad, nid yw hyn yn galluogi'r ganolfan

i nodi cynnydd disgyblion yn gywir. Yn ddiweddar, mae'r ganolfan wedi cyflwyno dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn lle'r CDUau. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r rhain.

Mae polisi rheoli ymddygiad y ganolfan yn aneffeithiol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ac ni chaiff ei gymhwyso'n gyson gan bob un o'r staff. Yn ei fformat presennol, nid yw'r system ddyddiol ar gyfer gwobrwyo disgyblion am ymddygiad priodol yn effeithiol o ran sicrhau bod llawer o'r disgyblion hyn yn cynnal agweddau da at ddysgu ac ymddygiad dros gyfnod.

Mae uwch arweinwyr yn casglu data am waharddiadau yn rheolaidd ac yn adrodd ar hyn i'r pwyllgor rheoli. Mae'r ganolfan wedi cyflwyno system dra ystyriol o waharddiadau mewnol yn ddiweddar i wella ymgysylltiad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr wedi arfarnu effaith y system hon ar ymddygiad disgyblion yn ddigon da ac mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol wedi aros yn uchel er 2015.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau arbenigol i gefnogi lles disgyblion. Er enghraifft, mae swyddog addysg dynodedig yn gweithio gyda'r ddarpariaeth i wella ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion. Er bod cwnselydd yn yr ysgol ar gael i ddisgyblion ar safle Stephenson Street, nid oes un ar gael i ddisgyblion ar y safleoedd eraill.

Mae'r tîm amlasiantaethol tra ystyriol a ffurfiwyd yn ddiweddar, sef 'Tîm o Amgylch y BAC', yn cyfarfod i gynllunio a chydlynu ymyriadau targedig i gefnogi lles disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y gwaith hwn ar ymgysylltiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Nid yw'r cynllunio ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn cynnwys ffocws clir ar themâu perthnasol ar draws y gwahanol gyfnodau allweddol. Mae gwersi ar gyfer disgyblion hŷn yn cynnwys ystod gyfyng o themâu addas, fel camddefnyddio sylweddau, perthnasoedd iach a chadw'n ddiogel, sy'n bodloni eu hanghenion yn briodol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar draws yr UCD yn rhy amrywiol.

Mae'r ganolfan yn gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol fel yr heddlu a Cymorth i Fenywod Cymru i ddarparu gwybodaeth bwysig, profiadau dysgu gwerth chweil a medrau defnyddiol ar gyfer ei disgyblion.

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac maent yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion ar y gofrestr, ystod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion a nifer y darpariaethau sy'n ffurfio'r UCD portffolio wedi cynyddu'n sylweddol. O ganlyniad, mae hunaniaeth, diben ac ethos y ganolfan wedi newid, ac nid oes gweledigaeth ar y cyd ymhlith prif randdeiliaid ar gyfer y cyfeiriad strategol.

Mae gan y pwyllgor rheoli gynrychiolaeth o ystod gyfyng o randdeiliaid addas. Mae'r pwyllgor wedi mabwysiadu strwythur newydd o is-bwyllgorau yn ddiweddar, ac mae wedi dyrannu rolau i bob aelod o'r pwyllgor. Mae'r newidiadau hyn yn dechrau helpu aelodau i gael dealltwriaeth well o waith yr UCD. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau

i'r pwyllgor rheoli gan y rheolwr gwasanaethau yn cynnwys digon o fanylion am ddeilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, nid yw aelodau mor ymwybodol ag y dylent fod o gryfderau'r UCD a'r meysydd i'w datblygu ac nid yw eu rôl fel ffrind beirniadol wedi'i datblygu'n ddigonol. Nid oes gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'r costau sy'n cael eu gwario gan y ganolfan a'r incwm sydd ar gael trwy gyllid grant.

Mae gan yr UCD galendr o weithgareddau sicrhau ansawdd sy'n defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu ar brif safleoedd yr UCD. Mae hyn yn cynnwys arsylwi gwersi'n rheolaidd, craffu ar waith disgyblion a chraffu ar gynllunio athrawon. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr yn rhy hael wrth arfarnu'r addysgu, gan nad ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon da i'r effaith a gaiff ar ddeilliannau disgyblion. Nid oes ffocws digonol ar draws yr holl weithgareddau sicrhau ansawdd ar gynnydd disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Caiff mwyafrif y staff gyfleoedd defnyddiol trwy gyfarfodydd rheolaidd i gyfrannu at hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae arfarniadau pwnc yn anghyson o ran ansawdd a chynnwys. Yn gyffredinol, nid ydynt yn rhoi disgrifiad cywir o'r prif gryfderau ym mhob maes pwnc ac nid ydynt yn nodi'r targedau pwysicaf ar gyfer gwella.

Nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ganolfan yn rhoi disgrifiad cywir o'i gwaith. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ystod gyfyng o dystiolaeth a gafwyd o ychydig iawn o safleoedd yr UCD yn unig. Nid yw'n cofnodi safbwyntiau prif randdeiliaid fel rhieni a disgyblion yn ddigon da. Nid yw'r adroddiad yn nodi cryfderau pwysig yn ddigon clir, fel y cynnydd cryf a wna disgyblion mewn canolfannau eraill.

Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithredol ac nid ydynt yn mynd i'r afael yn rheolaidd â chynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ar gyfer gwella, a chyfeiriad strategol y ganolfan.

Mae blaenoriaethau yn y cynllun datblygu yn ymwneud yn briodol â chanlyniadau hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys targedau strategol pwysig a nodwyd trwy fonitro gan yr awdurdod lleol. Nid yw'r cynllun yn nodi'n ddigon manwl y graddfeydd amser, yr adnoddau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i ysgogi'r newidiadau bwriadedig.

Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli perfformiad athrawon a gyflogir yn uniongyrchol gan yr UCD. Mae athrawon yn elwa ar gyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ag uwch arweinwyr sy'n arwain at gynlluniau gweithredu a thargedau manwl sy'n cysylltu'n dda â nodau personol a blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r UCD. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth glir o'u cyfraniad at welliannau ar draws y ganolfan.

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu partneriaethau strategol cryf gydag ysgolion yn yr ardal leol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi ailgyflwyno addysg prif ffrwd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r UCD yn cyfrannu'n effeithiol at y panel symudiadau rheoledig lleol, sydd wedi helpu lleihau gwahardd nifer y disgyblion sy'n ei chael yn anodd rheoli eu hymddygiad mewn lleoliadau prif ffrwd.

Mae'r UCD wedi dechrau meithrin partneriaethau effeithiol gyda darparwyr tebyg i wella agweddau pwysig ar ei darpariaeth fel y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i staff ymweld â lleoliadau eraill a dysgu oddi wrth arfer effeithiol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae rheolwr yr UCD wedi bod yn allweddol o ran creu fforwm gwerthfawr sy'n dod ag aelodau at ei gilydd o asiantaethau allweddol sy'n cefnogi lles disgyblion trwy'r 'Tîm o Amgylch y BAC' a ffurfiwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y grŵp hwn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r prif safle ar Stephenson Street yn darparu adnoddau o ansawdd uchel ac ystafelloedd dosbarth ag offer da sy'n cefnogi cyflwyno ystod eang o brofiadau dysgu. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adnoddau dysgu yn amrywio'n rhy eang rhwng safleoedd. Mae diffyg lle ac adnoddau addas ar safleoedd eraill yr UCD yn lleihau ehangder y cwricwlwm ac ystod y dulliau addysgu a ddefnyddir gan staff.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr UCD ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2018